Cyllid & Tollau EM

# Yswiriant bywyd a blwydd-daliadau

Atodlen IHT410

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os oedd yr ymadawedig yn talu premiymau misol neu gyfandaliadau rheolaidd ar unrhyw:

- polisïau yswiriant bywyd, neu os bydd unrhyw symiau'n daladwy gan gwmnïau yswiriant i'r ystâd o ganlyniad i farwolaeth yr ymadawedig. (Does dim gwahaniaeth p'un a oedd y polisïau ar fywyd yr ymadawedig neu fywyd rhywun arall neu p'un a oedd y polisïau er budd yr ymadawedig.)
- bondiau buddsoddi uned gysylltiol gyda chwmnïau yswiriant neu ddarparwyr gwasanaeth ariannol eraill sy'n talu 101% o werth yr unedau i'r ystâd
- cynlluniau buddsoddi neu ailfuddsoddi, bondiau neu gytundebau gyda darparwyr gwasanaethau ariannol sy'n talu'r ystâd ar farwolaeth
- polisïau yswiriant a bondiau buddsoddi uned gysylltiol sy'n daladwy i'r buddiolwyr o dan ymddiriedolaeth ac nad ydynt yn ffurfio rhan o'r ystâd
- polisïau bywyd ar y cyd yr oedd yr ymadawedig yn un o'r bywydau a yswiriwyd ond sy'n parhau mewn grym ar ôl dyddiad y farwolaeth.

## Pryd i beidio â defnyddio'r ffurflen hon

Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon i sôn ynghylch blwydd-daliadau pensiwn. Defnyddiwch ffurflen IHT409 *Pensiynau* yn lle hynny.

## Polisïau diogelu morgeisi

Os yw'r polisi yn bolisi diogelu morgais, dylech gynnwys yr eiddo, y morgais a'r polisi fel eitemau ar wahân, fel a ganlyn:

- Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar yr eiddo yn ei enw/henw ei hun, dylech gynnwys manylion y polisi yng nghwestiwn 2 isod.
- Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar yr eiddo ar y cyd, dylech gynnwys manylion y polisi ynghyd â'r eiddo a'r morgais ar ffurflen IHT404 *Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd.*

**Enw'r ymadawedig**

[ ]

**Dyddiad y farwolaeth** ***DD MM BBBB***

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant (os yn hysbys)**

[ ]

## Cymorth

Mae'r nodiadau ar gyfer eich cynorthwyo i lenwi'r ffurflen hon wedi eu cynnwys ar y ffurflen. Am fwy o wybodaeth neu gymorth neu gopi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i **www.gov.uk/inheritance-tax**
- ffoniwch ein Llinell Gymorth Gymraeg ar **0300 200 1900** - os byddwch yn ffonio o'r tu allan i'r DU ffoniwch y rhif **+44 300 123 1072**

## Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Er mwyn gweld yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn y disgwyliwn gennych chi, ewch i **www.gov.uk/eichsiarter** i fwrw golwg ar *Eich Siarter*.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anableddau, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r mwyafrif o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â'n llinellau cymorth i gael mwy o wybodaeth.

## Polisïau yswiriant bywyd

1 **A oedd unrhyw symiau'n daladwy gan gwmnïau yswiriant i'r ystâd o ganlyniad i farwolaeth yr ymadawedig?**

Nac oedd [ ] *Ewch i **gwestiwn 3*** Oedd [ ] *Ewch i **gwestiwn 2***

2 **Manylion y symiau sy'n daladwy gan gwmnïau yswiriant** *(Yn yr Alban bydd y polisïau wedi eu rhestru ar ffurflen C1 y Rhestren: does dim rhaid i chi eu rhestru unwaith eto ar y ffurflen hon, ond dylech gynnwys eu cyfanswm yma.)*

| Enw'r cwmni yswiriant | Rhif y polisi | Swm sy'n daladwy, gan gynnwys bonysau £ |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm 2 | |

**3** **A oedd bywyd yr ymadawedig wedi ei yswirio o dan bolisi yswiriant mewn perchnogaeth ar y cyd sy'n parhau ar ôl y farwolaeth?**

Nac oedd ☐ *Ewch i **gwestiwn 4***

Oedd ☐ *Rhowch fanylion y polisi a'i werth ar ffurflen IHT404 Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd, ac nid ar y ffurflen hon. Ewch i **gwestiwn 4***

**4** **A oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa o bolisi bywyd ar fywyd person arall pan fo'r polisi yn parhau ar ôl y farwolaeth?**

Nac oedd ☐ *Ewch i **gwestiwn 6***

Oedd ☐ *Ewch i **gwestiwn 5***

**5** **Rhowch fanylion polisïau yswiriant bywyd. Darparwch gopi o bob polisi**

| Enw'r cwmni yswiriant | Rhif y polisi | Enw'r person y mae ei fywyd wedi ei yswirio | Gwerth y polisi a ddarparwyd gan y cwmni yswiriant ar ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|
| | | | |

Cyfanswm **5** ☐

**6** **Cyfanswm gwerth y polisïau yswiriant bywyd (blwch 2 + blwch 5)** ☐

*Copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, **blwch 57***

## Taliadau a wnaed ar ôl marwolaeth yr ymadawedig

### Blwydd-daliadau bywyd a brynwyd

Mae elfen incwm ac elfen cyfalaf i daliadau a wnaed o dan flwydd-daliadau bywyd a brynwyd. Mae gwybodaeth ynghylch y ddwy elfen wahanol ar lythyrau gan y cwmni yswiriant sy'n gwneud y taliadau. Bydd taliadau a wnaed o dan flwydd-dal a brynwyd gan yr ymadawedig yn cynnwys incwm yn unig. Rhowch wybodaeth yn y fan hon ynghylch blwydd-daliadau bywyd a brynwyd yn unig. Dylid dangos blwydd-daliadau pensiwn ar atodlen IHT409 *Pensiynau* yn lle hynny.

7 **A wnaeth unrhyw daliadau a dalwyd o dan flwydd-dal bywyd a brynwyd parhau ar ôl marwolaeth yr ymadawedig?**

Naddo ☐ *Ewch i **gwestiwn 10***

Do ☐ *Ewch i **gwestiwn 8***

8 **Rhowch fanylion taliadau blwydd-daliadau a brynwyd**

*Mae cyfrifiannell blwydd-daliadau gwarantedig ar ein gwefan a all eich helpu i roi gwerth ar yr hawl i dderbyn gweddill y taliadau. Ewch i **www.gov.uk/inheritance-tax***

| Enw'r cwmni a werthodd y polisi | Pa mor aml a dalwyd yr ad-daliadau? *Er enghraifft, wythnosol, misol* | Manylion codiadau mewn taliadau yn ystod gweddill y cyfnod gwarantedig, os o gwbl | Dyddiad y taliad gwarantedig terfynol | Gwerth yr hawl i dderbyn gweddill y taliadau £ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | Cyfanswm **8** | |

*Dylech gynnwys y swm hwn yn y ffigur ar ffurflen IHT400, Blwch 76*

9 **Beth yw'r swm gros sy'n daladwy o dan y blwydd-dal?** ☐

Pa ran o'r swm a ystyrir yn gyfalaf? ☐

Pa ran o'r swm a ystyrir yn incwm? ☐

*Efallai bydd rhaid i chi gyfeirio at lythyrau gan y cwmni yswiriant er mwyn cael y ffigyrau hyn*

## Cyfandaliad a wnaed ar farwolaeth yr ymadawedig

**10** **A oedd cyfandaliad yn daladwy o dan flwydd-daliad bywyd a brynwyd o ganlyniad i farwolaeth yr ymadawedig?**

Nac oedd ☐ *Ewch i **gwestiwn 12***

Oedd ☐ *Ewch i **gwestiwn 11***

**11** **Rhowch fanylion y cyfandaliad sy'n daladwy**

| Enw'r cwmni a werthodd y polisi | Esboniwch bryd a sut y gwnaeth yr ymadawedig waredu'r hawl i dderbyn y cyfandaliad, os nad yw'n daladwy i'r ystâd. | Gwerth y cyfandaliad sy'n daladwy £ |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm y gwerth 11 | |

*Dylech gynnwys y swm hwn yn y ffigur ar ffurflen IHT400, Blwch 76*

**12** **A wnaeth yr ymadawedig dalu, o fewn saith mlynedd i'w farwolaeth, unrhyw bremiymau ar bolisi yswiriant bywyd er budd rhywun arall, heblaw am briod neu bartner sifil yr ymadawedig?**

Naddo ☐ *Ewch i **gwestiwn 14***

Do ☐ *Rhowch fanylion ar ffurflen IHT403 Rhoddion a throsglwyddiadau eraill sydd o werth*

**13** **A brynwyd blwydd-dal ar unrhyw adeg?** *(Gallai'r ymadawedig fod wedi prynu blwydd-dal yn ogystal â thalu premiymau ar bolisi yswiriant bywyd er budd rhywun arall.)*

Naddo ☐

Do ☐ *Darparwch gopi o atodlen a darpariaethau'r polisi*

**14** **A oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa o bolisi yswiriant bywyd a drefnwyd ar fywyd person arall ac a gadwyd mewn ymddiriedolaeth er budd yr ymadawedig (ac eraill)?**

Nac oedd ☐

Oedd ☐

Gallai polisïau yswiriant bywyd a drefnwyd ar fywyd person gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth er budd eraill. Bydd rhieni yn aml yn trefnu polisi yswiriant bywyd ar gyfer eu plant ond yn ei gadw mewn ymddiriedolaeth. Gallai partneriaid busnes neu gyfarwyddwyr cwmni drefnu polisi yswiriant ar eu bywydau ond er budd eu partneriaid neu eu cyd-gyfarwyddwyr.

Os bu farw'r ymadawedig tra roedd yn parhau i weithio, neu cyn ei riant/rieni, mae'n bosibl y gallai fod hawl gan yr ymadawedig i elwa o dan bolisi a gadwyd mewn ymddiriedolaeth.

Os oedd gan yr ymadawedig yr hawl i elwa o dan bolisi yswiriant bywyd a gadwyd mewn ymddiriedolaeth, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen IHT418 *Asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth. Gweler IHT400 Nodiadau.*